<table>
<tr><th>Teitl/math o weithgaredd</th><th></th><th>Trosolwg o'r disgrifiad</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Taith Dywys yr Aur Du</td><td>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau<br>Y Dyniaethau (Cam Cynnydd: 2-4)<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cam Cynnydd: 2-4)<br>Iechyd a Lles (Cam Cynnydd: 2-3)<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Cam Cynnydd: 2-3)<br><br>Mae modd ei addasu i gyd-fynd â phob lefel</td><td rowspan="2">Mae ein Taith yr Aur Du yn brofiad dysgu perffaith i ddisgyblion gysylltu â'u 'Cynefin'. Mae'r daith danddaearol yn cael ei harwain gan un o'n cyn-lowyr sy'n ysbrydoli chwilfrydedd trwy gyfleu eu straeon o fywyd dan ddaear. Ymchwiliwch i bwysigrwydd hanesyddol 'Aur Du' (glo) o Gwm Rhondda a gafodd ei gludo ledled y byd. Bydd disgyblion yn trin a thrafod yr effaith gymdeithasol a thechnolegol y cafodd y fasnach lo ar y byd.<br>Mae Taith Danddaearol yr Aur Du yn para tua 60 munud. Mae'r daith yn dod i ben gyda reid sy'n dynwared taith i ben y pwll ar DRAM, sy'n sicr o warantu rhai syrpreisys.</td></tr>
<tr><td>Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol<br>Nodi beth sy'n gwneud mwyngloddio, tirweddau ac ardaloedd Cymru yn unigryw. Trin a thrafod y perthnasoedd rhwng bodau dynol, eu hamgylchedd, Cymru a'r byd ehangach.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Arddangosfa Aur Du Ryngweithiol<br><br>Amgueddfa/ crwydro ar eich pen eich hunan<br><br>1 awr</td><td>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau<br>Y Dyniaethau (Cam Cynnydd: 2-4)<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cam Cynnydd: 2-3)<br>Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Cynnydd: 2-3)<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Cam Cynnydd: 2-3)<br><br>Mae modd ei addasu i gyd-fynd â phob lefel o Gam Cynnydd 2 ac i fyny.</td><td rowspan="2">Mae arddangosfa ryngweithiol yr Aur Du yn cynnwys clipiau fideo anhygoel o'r archifau o'r adeg y bu glo o Gwm Rhondda'n pweru'r byd. Mae dros 140 o arteffactau mwyngloddio a hanes Cymru yn cael eu harddangos, ynghyd â chlipiau fideo anhygoel, sgriniau cyffwrdd, cwisiau, jig-sos ac arteffactau wedi'u digidoli. Byddai modd dadlau mai dyma'r arddangosfa ddiffiniol ar hanes Cymoedd De Cymru.<br><br>Mae'r sgriniau cyffwrdd yn adrodd hanes y gwrthrychau a'r safle. Mae modd i ymwelwyr bori trwy bynciau megis y Rhuthr am Lo Cwm Rhondda, trychinebau mwyngloddio, a chyfranogiad glowyr Cwm Rhondda yn Rhyfel Cartref Sbaen. Bydd y pynciau yma'n dod yn fyw ar y sgriniau mawr gyda chlipiau newyddion hanesyddol. Mae yna linellau amser, mapiau i'w gweld a mynediad digidol at ragor o arteffactau o'r casgliad.</td></tr>
<tr><td>Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol<br>Cael mynediad at, a thrin a thrafod, ystod o glipiau fideo gwreiddiol o ystod o leoliadau ac amseroedd. Dadansoddi'r dystiolaeth a ddarperir a gwerthuso dehongliadau a safbwyntiau'n feirniadol drwy dechnoleg ddigidol ac arddangosfeydd gweledol.</td></tr>
<tr><td>Taith Gerdded ar hyd Dramffordd<br>1 awr gyda thywysydd neu o dan eich arweiniad eich hunan</td><td>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau<br>Y Dyniaethau (Cam Cynnydd: 2-3)<br>Iechyd a Lles (Cam Cynnydd: 2-3)<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Cam Cynnydd: 2-3)<br><br>Mae modd ei addasu i gyd-fynd â phob lefel o Gam Cynnydd 2 ac i fyny.</td><td>Taith Gerdded ar hyd Dramffordd<br>Dyma weithgaredd amrywiol y mae modd ei addasu lle byddwch chi'n darganfod Llwybr y Dramffordd 1809, yn dod o hyd i gysylltiad â'r gorffennol ac yn trin a thrafod agweddau ar adfywio. Darganfyddwch sut y mae modd i arloesedd dynoliaeth lywio heriau sy'n cael effaith fyd-eang a lleol.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | **Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Nodi beth sy'n gwneud lleoedd a thirweddau Cymru yn unigryw. Trin a thrafod cysylltiadau rhwng bodau dynol, eu hamgylchedd lleol, Cymru a'r byd ehangach. | Gwneud cysylltiadau â'r gorffennol trwy ymholi, archwilio ac ymchwilio.<br>Darparu cyfle i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r ffyrdd cafodd y tirlun cyfagos ei newid oherwydd y pyllau glo a'r hyn sydd ar ôl heddiw. |
| **Mrs Washy**<br>Caiff gweithdy ei ddarparu | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau **(Cam Cynnydd:1-3)**<br>Iechyd a Lles **(Cam Cynnydd:1-2)**<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg **(Cam Cynnydd:1-2)**<br><br>*Mae modd ei addasu i gyd-fynd â phob lefel*<br><br>**Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Mae creadigrwydd; meddwl yn feirniadol; cyfathrebu a gwaith tîm yn allweddol i'r gweithgaredd dilys yma. Trin a thrafod arwyddocâd y mae arloesedd dynol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg wedi'i gael yn ein byd modern. | **Diwrnod Golchi Fictoraidd**<br>Profiad dysgu rhyngweithiol o ddiwrnod golchi dillad Fictoraidd nodweddiadol. Cyfle i nodi, cymharu a gwerthuso sut mae bywyd, cyfrifoldebau a disgwyliadau wedi newid trwy ddatblygiadau mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.<br>Mae'r gweithgaredd awyr agored yma'n darparu profiad dysgu dilys, cyffyrddol a phwrpasol.<br><br>Yn para tua 45 munud |
| **Portreadau/Tirluniau Cwm Rhondda**<br>Caiff gweithdy ei ddarparu | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau **(Cam Cynnydd:2-4)**<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Y Celfyddydau Mynegiannol **(Cam Cynnydd:1-4)**<br>*Mae modd ei addasu i gyd-fynd â phob lefel*<br><br>**Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Caiff creadigrwydd a meddwl yn feirniadol eu hannog a'u meithrin trwy ein casgliad Celf unigryw.<br>Bydd disgyblion yn trin a thrafod, yn ymateb i ysgogiadau, yn creu ac yn myfyrio ar eu gwaith eu hunain wrth ymgysylltu â phrofiadau *cyfoethog a dilys* sy'n herio eu canfyddiadau. | Mae'r sesiwn yma'n annog disgyblion i drin a thrafod materion a straeon yn greadigol trwy gelf o'n casgliad unigryw o artistiaid lleol. Gwerthuso dehongliadau Nicholas Evans, Lynne Gant a George Little sy'n mynegi'r perygl, y natur lym a'r dirwedd unigryw sy'n gysylltiedig â mwyngloddio. Gall gynnwys eraill o'n casgliad.<br><br>Yn para tua 45 munud |
| **Newidiadau o ran Plentyndod**<br>Caiff gweithdy ei ddarparu | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Iechyd a Lles **(Cam Cynnydd:2-3)** | Gweithdy ymchwiliol lle bydd disgyblion yn gwerthuso plentyndod yn yr $19^{eg}$ ganrif o fewn y cartref, gwaith, addysg a chwarae.<br>Bydd y sesiwn ddilys a phwrpasol yma'n caniatáu i ddisgyblion dynnu casgliadau o dystiolaeth a ddarperir, trwy gymharu'r gorffennol a heddiw sy'n ymwneud â phlant yn y gwaith, y cartref, addysg a chwarae. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Themâu trawsbynciol sy'n trin a thrafod datblygiad deddfwriaeth sy'n ymwneud â Hawliau Dynol, Cyflogaeth, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Yn para tua 45 munud |
| **Ysgyfaint Du: Ymchwilio i effaith llwch glo ar iechyd glowyr**<br>Caiff gweithdy ei ddarparu | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Iechyd a Lles **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>**Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Mae'r gweithdy yma'n datblygu meddwl yn feirniadol, arsylwi a sgiliau datrys problemau trwy weithgareddau gwyddoniaeth ymarferol ac ymholi hanesyddol. Mae disgyblion yn meithrin empathi drwy efelychu cyflyrau iechyd, cymharu technolegau amddiffynnol dros amser, a thrin a thrafod achos ac effaith drwy arbrofion rhyngweithiol. Mae'n annog gwaith tîm, cyfathrebu effeithiol a myfyrio meddylgar ar effaith ddynol, iechyd ac arloesedd. | Mae'r gweithdy diddorol yma'n trin a thrafod effaith llwch glo ar iechyd glowyr, gan ganolbwyntio ar glefyd yr Ysgyfaint Du. Bydd disgyblion yn adeiladu modelau o ysgyfaint, yn profi offer amddiffynnol ac yn ymchwilio i symptomau go iawn er mwyn deall gwyddoniaeth a chost ddynol mwyngloddio.<br>Dan arweiniad gweithgareddau rhyngweithiol, mae disgyblion yn datblygu sgiliau ymholi gwyddonol, empathi ac ymwybyddiaeth hanesyddol mewn ffordd ymarferol a chofiadwy. Mae'n berffaith ar gyfer cryfhau dysgu trawsgwricwlaidd trwy gyd-destun y byd go iawn, gan gefnogi nodau'r cwricwlwm wrth gysylltu disgyblion â threftadaeth ddiwydiannol leol.<br><br>Yn para tua 40 munud |
| **Peiriannau Pwerus**<br>Caiff gweithdy ei ddarparu | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Mathemateg a Rhifedd **(Cam Cynnydd:2)**<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>**Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Mae'r gweithdy yma'n datblygu meddwl yn feirniadol, creadigrwydd a chydweithio wrth i ddisgyblion ddylunio, adeiladu a phrofi eu systemau pwlïau eu hunain. Mae disgyblion yn defnyddio egwyddorion gwyddonol a pheirianyddol, defnyddio rhesymu mathemategol i fesur a chymharu canlyniadau, a meithrin sgiliau cyfathrebu drwy waith tîm a heriau datrys problemau. Mae'r sesiwn hefyd yn cryfhau'r defnydd o iaith wyddonol gywir ac yn meithrin dysgu myfyriol wrth i ddisgyblion werthuso | Mae'r gweithdy ymarferol yma'n cyflwyno gwyddoniaeth peiriannau syml i ddisgyblion, gan ganolbwyntio ar systemau pwlïau a gafodd eu defnyddio wrth fwyngloddio'n hanesyddol. Drwy heriau adeiladu modelau a datrys problemau ar y cyd, bydd disgyblion yn dylunio ac yn profi eu systemau pwlïau eu hunain i ddysgu sut y gwnaeth y mecanweithiau yma gloddio yn fwy diogel ac yn fwy effeithlon. Gyda chysylltiadau cryf â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg a hanes lleol, mae'r sesiwn yma'n annog meddwl yn nhermau dylunio, gwaith tîm, a defnydd cywir o eirfa wyddonol - gan gynnig profiad dysgu cyfoethog a chofiadwy sy'n dod â chysyniadau mecanyddol yn fyw.<br><br>Yn para tua 40 munud |

| | | |
|---|---|---|
| | effeithlonrwydd eu dyluniadau. | |
| **Llwch a Pherygl**<br>Caiff gweithdy ei ddarparu | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Iechyd a Lles **(Cam Cynnydd:2-3)** | Mae'r gweithdy deinamig yma'n cyfuno gwyddoniaeth a hanes i helpu disgyblion i ddeall y peryglon go iawn y mae glowyr yn eu hwynebu, gyda chanolbwynt ar ffrwydradau wedi'u hachosi gan lwch glo a nwy methan. Drwy arddangosiadau dramatig ac |
| | Mathemateg a Llythrennedd **(Cam Cynnydd:2)**<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>**Sgiliau Trawsgwricwlaidd /Cyfannol**<br>Mae'r gweithdy yma'n cefnogi ymholi gwyddonol, arsylwi a meddwl dadansoddol wrth i ddisgyblion drin a thrafod hylosgi, nwyon a diogelwch trwy arddangosiadau dramatig a gweithgareddau ymarferol. Mae disgyblion yn gwneud cysylltiadau yn y byd go iawn rhwng adweithiau cemegol a risgiau mwyngloddio hanesyddol, gan ddatblygu empathi, ymwybyddiaeth o risg a sgiliau datrys problemau. Mae'r sesiwn hefyd yn hyrwyddo cydweithio a thrafodaeth, gan annog disgyblion i fyfyrio ar effaith arloesedd a diogelwch mewn cyd-destunau yn y gorffennol ac yn y presennol. | ymchwiliadau dan arweiniad, bydd disgyblion yn arsylwi ar adweithiau hylosgi, yn trin a thrafod y triongl tân, ac yn asesu sut y datblygwyd newyddbethau peirianyddol megis lamp Davy er mwyn gwella diogelwch glowyr. Mae'r sesiwn yn annog chwilfrydedd, meddwl yn feirniadol, a chysylltiadau ystyrlon rhwng arferion diogelwch y gorffennol a'r presennol – gan ei gwneud yn ffordd ddelfrydol o ddod â dysgu gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yn fyw trwy gyd-destun y byd go iawn.<br><br>Yn para tua 40 munud |
| **Dwndwr Twneli**<br>Caiff gweithdy ei ddarparu | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Iechyd a Lles **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg **(Cam Cynnydd:2-3)** | Mae'r gweithdy cyfoethog o ran cwricwlwm yma'n cynnwys y disgyblion ac yn eu cyflwyno nhw i wyddoniaeth sain trwy gyd-destun diddorol mwyngloddio tanddaearol. Gan ddefnyddio gorsafoedd sain |

| | | |
|---|---|---|
| | **Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Mae'r gweithdy yma'n cryfhau sgiliau ymholi a chyfathrebu gwyddonol disgyblion trwy drin a thrafod ymarferol o sut mae sain yn teithio. Mae disgyblion yn ymchwilio i sut mae dirgryniadau'n symud trwy wahanol ddefnyddiau, yn defnyddio sgiliau datrys problemau dieiriau fel tîm, ac yn cael cipolwg ar heriau cyfathrebu tanddaearol yn hanes mwyngloddio. Mae'r sesiwn yn cefnogi cydweithio, meddwl yn feirniadol ac empathi – gan helpu disgyblion i gysylltu dysgu gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg â chyd-destunau hanesyddol y byd go iawn. | rhyngweithiol – gan gynnwys ffonau cwpan, gongiau llwyau, ac arbrofion dirgryniad – mae disgyblion yn ymchwilio i sut mae sain yn teithio trwy wahanol ddefnyddiau. Daw'r sesiwn i ben gyda her tîm gydweithredol lle mae disgyblion yn defnyddio signalau tapio wedi'u codio i arwain glöwr i ddiogelwch, gan atgyfnerthu eu dealltwriaeth o briodweddau sain wrth feithrin sgiliau cyfathrebu, datrys problemau, a gwaith tîm mewn ffordd ddiddorol a chofiadwy.<br>Yn para tua 40 munud |
| **Creigiau sy'n pweru'r byd: Stori glo o'r tarddiad i'r tanwydd**<br>Caiff gweithdy ei ddarparu | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Y Dyniaethau **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>**Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Mae'r gweithdy rhyngweithiol yma'n meithrin dealltwriaeth wyddonol, gwaith tîm a chyfathrebu trwy drin a thrafod taith glo o'r tarddiad i'r tanwydd mewn ffordd ymarferol. | Mae Creigiau sy'n pweru'r byd: Stori Glo o'r Tarddiad i'r Tanwydd yn weithdy bywiog ac ymarferol sy'n dod â gwyddor y ddaear ac addysg ynni yn fyw. Mae disgyblion yn ymchwilio i sut mae glo yn ffurfio, sut mae'n cael ei fwyngloddio, a sut mae wedi pweru diwydiant a bywyd bob dydd ar draws canrifoedd.<br>Drwy weithgareddau rhyngweithiol—gan gynnwys creu ffosiliau, llinell amser ddaearegol, ras gyfnewid cloddio, ac arddangosiad pŵer stêm—bydd disgyblion yn olrhain taith glo o goedwigoedd cynhanesyddol i drydan modern. Mae'r gweithdy hefyd yn datgelu defnyddiau llai adnabyddus o lo, gan ennyn chwilfrydedd a |
| | Mae disgyblion yn datblygu sgiliau ymholi a rhesymu wrth iddyn nhw efelychu prosesau daearegol, modelu trosglwyddo ynni, a datrys problemau yn ystod ras gyfnewid mwyngloddio. Ochr yn ochr â llythrennedd gwyddonol, mae disgyblion yn myfyrio ar effaith ddynol ac amgylcheddol glo, gan gefnogi cysylltiadau trawsgwricwlaidd ystyrlon â'r dyniaethau, cynaliadwyedd, a gwneud penderfyniadau yn y byd go iawn. | thrafodaeth gyfoethog yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n wych ar gyfer atgyfnerthu themâu gwyddoniaeth, hanes a chynaliadwyedd trwy brofiadau ymarferol a chofiadwy.<br>Yn para tua 40 munud |
| **Ymdrin ag Ynni: O greithiau glo i fannau gwyrdd** | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Iechyd a Lles **(Cam Cynnydd:2-3)**<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg **(Cam Cynnydd:2-3)** | Mae'r gweithdy diddorol yma'n cyflwyno disgyblion i effaith amgylcheddol cloddio am lo a phwysigrwydd adfer tir a diogelwch cymunedol. Gan ddefnyddio enghreifftiau o'r byd go iawn a heriau tîm ymarferol, mae disgyblion yn trin a thrafod sut |

| | | |
|---|---|---|
| Caiff gweithdy ei ddarparu | **Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cyfannol**<br>Mae'r gweithdy yma'n cynnig cyfuniad pwerus o wyddoniaeth, y dyniaethau a lles i ddisgyblion trwy weithgareddau ymarferol sy'n procio'r meddwl. Mae disgyblion yn modelu newid amgylcheddol, yn gwerthuso strategaethau diogelwch yn y byd go iawn, ac yn trin a thrafod adfywio a bioamrywiaeth mewn tirweddau ôl-ddiwydiannol. Drwy gyfuno datrys problemau mewn ffordd greadigol â gwaith tîm a thrafodaeth feirniadol, mae'r sesiwn yn annog empathi, meddwl yn foesegol, a dealltwriaeth ddyfnach o'n cyfrifoldeb i ofalu am bobl, lleoedd a'r blaned. | mae mwyngloddio wedi siapio'r dirwedd – a sut y mae modd ei thrwsio. Drwy feddwl yn feirniadol, creadigrwydd a chydweithio, caiff disgyblion eu hannog i ystyried sut rydyn ni'n gofalu am ein hamgylchedd a gwneud dewisiadau gwybodus a diogel ar gyfer y dyfodol. Cysylltiad perffaith rhwng gwyddoniaeth, cynaliadwyedd a hanes lleol.<br><br>Yn para tua 40 munud |
| **Mae ein blychau i'w benthyg yn cynnwys detholiad o wrthrychau â thema, gwybodaeth am wrthrychau, taflenni gwaith ac awgrymiadau gweithgareddau.** | | |
| **Cymoedd Balch:**<br>Bywyd ac Etifeddiaeth Paul Robeson<br><br>**Blwch i'w Fenythyg** | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Y Celfyddydau Mynegiannol<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Iechyd a Lles<br><br>**Cam Cynnydd: 4 ac i fyny** | Bydd modd i ddisgyblion drin a thrafod y cynnwys, a fydd yn datgelu cysylltiadau Cymru a'r byd â'r canwr a'r ymgyrchydd gwych. Mae'n cynnwys amrywiaeth o arteffactau gwreiddiol a rhai wedi'u hatgynhyrchu sy'n gysylltiedig â Paul Robeson, a'r frwydr hiliol a diwydiannol yng Nghymru a thu hwnt. |
| **Lleisiau Anghofiedig: Hanes Menywod Cymru**<br>Blwch i'w Fenthyg | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Y Celfyddydau Mynegiannol<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Iechyd a Lles<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br><br>**Cam Cynnydd: 2-3** | Mae modd i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth am hanes menywod a ffigurau benywaidd arwyddocaol yn hanes Cymru. Mae'r blwch yn cynnwys gwrthrychau sydd wedi'u hatgynhyrchu, o faneri protest i bosteri recriwtio o'r rhyfel a gwisgoedd y Swffragetiaid,<br>ac adnoddau â ffocws y mae modd eu trafod. |

| | | |
|---|---|---|
| **Glo: Bywyd Glöwr**<br>Blwch i'w Fenthyg | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Y Celfyddydau Mynegiannol<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Iechyd a Lles<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br><br>**Cam Cynnydd: 2 ac i fyny** | Blwch i'w Fenthyg – Glowyr:<br>Adnoddau dysgu integredig ac sy'n seiliedig ar ymholi gan gynnwys tystiolaeth hanesyddol gynradd ac eilaidd. Mae'r blwch yma'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o sut beth oedd bywyd i lowyr ym Meysydd Glo De Cymru trwy gasgliad o wrthrychau go iawn a rhai wedi'u hatgynhyrchu ac adnoddau â ffocws. |
| **Yr Ail Ryfel Byd**<br>Blwch i'w Fenthyg | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Y Celfyddydau Mynegiannol<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Iechyd a Lles<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br><br>**Cam Cynnydd: 2 ac i fyny** | Dysgu sy'n seiliedig ar ymholi gan ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol gynradd ac eilaidd. Mae'r blwch yma'n defnyddio gwrthrychau wedi'u hatgynhyrchu ac adnoddau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o sut beth oedd bywyd i bobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ron Berry**<br><br>Blwch i'w Fenthyg: Wedi'i greu o rodd ddiweddar o lyfrau gan ferched Ron Berry | **Cysylltiadau â'r Cwricwlwm / Camau Cynnydd a Lefelau**<br>Y Dyniaethau<br>Iaith, Llythrennedd, a Chyfathrebu<br>Iechyd a lles<br><br>Adnodd sy'n denu sylw i feithrin chwilfrydedd. Bydd hynny'n caniatáu i'r disgybl nodi a thrin a thrafod cysylltiadau newydd a throsglwyddo'r hyn mae wedi'i ddysgu yn gysyniadau sylfaenol newydd.<br><br>**Cam Cynnydd: 4 ac i fyny** | Awdur nofelau a straeon byrion a aned yng Nghwm Rhondda oedd Ron Berry a adawodd yr ysgol yn 14 oed i weithio'n löwr. Mae ei weithiau llenyddol wedi'u gwreiddio'n ddwfn ym meysydd glo de Cymru ac maen nhw wedi cael eu croesawu gan awduron ac ymchwilwyr cyfoes am eu portread o ddosbarth gweithiol y cymoedd diwydiannol. Mae ei weithiau'n adlewyrchu ei brofiad o weithio dan ddaear ac o gymunedau De Cymru a oedd yn dirywio ar ôl y rhyfel ac ar ôl y cyfnod diwydiannol, ac maen nhw'n cyfleu hanes cymdeithasol yr amser.<br><br>Mae'r blwch yma'n addas ar gyfer ysgolion uwchradd, grwpiau cymunedol neu debyg sydd eisiau cychwyn clwb llyfrau/llenyddiaeth hanesyddol. |